

**CABINET**

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2021

Mae agenda cyfarfod y Cabinet ar gael [yma](#).

Yn bresennol: Y Cynghorydd N. Moore (Cadeirydd), Y Cynghorydd L. Burnett (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr B.T. Gray, P.G. King, K.F. McCaffer, Mrs. M.R. Wilkinson ac E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr O. Griffiths, Mrs. S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson a L.O. Rowlands.

**C611 COFNODION –**

PENDERFYNWYD – cymeradwyo cofnodion Rhan I y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2021 yn gofnod cywir.

**C612 DATGAN BUDDIANNAU –**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

**C613 GWASANAETH PROFI, OLRHAIN, DIOGELU CAERDYDD A'R FRO YN CEFNOGI CYMUNEDAU LLEIAFRIFOEDD ETHNIG (DL/ER) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 10 Mehefin 2021 i'r Cabinet fel y nodwyd yn yr agenda.

Tynnodd yr Arweinydd, wrth gyfeirio at y cyfeiriad, sylw at:-

- Y swm sylweddol o waith a wneir gan Swyddogion Bro Morgannwg ar y cyd â phartneriaid allanol (Iechyd, yr Heddlu ac ati);
- Gwaith y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) a fu'n rhagorol.

Roedd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod ac wedi canmol y Rheolwr Cyfathrebu a'r Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes am eu gwaith ar yr agenda gyfan ar draws y rhanbarth. Roedd gwaith yn mynd rhagddo'n rhan o'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu i gysylltu â'r rheiny yn y gymuned a oedd o fewn grwpiau nad oeddent yn dod i gael brechiadau fel rhai eraill.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod llawer o waith wedi'i wneud i gyrraedd poblogaeth mor amrywiol ym Mro Morgannwg a Chaerdydd gan y GRhR.

## BENDERFYNU –

- (1) Nodi gwaith gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu Caerdydd a'r Fro wrth gefnogi cymunedau lleiafrifoedd ethnig i gael mynediad at brofion a brechiadau COVID-19.
- (2) Nodi'r adroddiad.
- (3) Dosbarthu'r adroddiad i bob Cynghorydd, aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac aelod o'r Fforwm Ymgynghori ar Gydraddoldeb er gwybodaeth ac er mwyn iddo fod yn ymwybodol ohono.
- (4) Diolch i Swyddogion sy'n gweithio mewn partneriaeth ar draws y bwrdd am gymaint o waith a wneir yn rhan o wasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu (POD) Caerdydd a'r Fro.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Wedi ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Wedi ystyried yr adroddiad.
- (3) Rhoi gwybodaeth i'r Aelodau a'r partneriaid am y gwaith yn y maes gweithgarwch hwn.
- (4) Dangos gwerthfawrogiad o'r gwaith partneriaeth a wneir yn rhan o wasanaeth POD Caerdydd a'r Fro.

**C614 DEDDF TRWYDDEDU 2003 - ADOLYGIAD O DDATGANIAD POLISI TRWYDDEDU 2021-2026 (DEH) (CRAFFU – CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Statudol ar 15 Mehefin 2021 i'r Cabinet fel y nodwyd yn yr agenda.

Tynnodd yr Arweinydd, wrth gyfeirio at y cyfeiriad, sylw at y ffaith bod y canlynol hefyd wedi'u cynnwys yn nogfen y Polisi:

- Sylwadau Heddlu De Cymru ynghylch cydnabod y defnydd o System Goleuadau Traffig Heddlu De Cymru fel offeryn at ddibenion gorfodi;
- Sylwadau Cyngor Tref Llanilltud Fawr a oedd wedi gofyn am wneud geiriad y Polisi yn fwy cadarn wrth ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo'r newidiadau i'w gwneud i'r Datganiad Polisi Trwyddedu Drafft

(2) Cyfeirio'r Datganiad Polisi Trwyddedu i'r Cabinet i'w gymeradwyo ar 26 Gorffennaf 2021.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod y Cyngor, fel yr awdurdod trwyddedu'n cyflawni ei ddyletswydd dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

(2) Cyfeirio'r mater at y Cyngor Llawn i geisio cymeradwyaeth i fabwysiadu'r Polisi ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

**C615 PROSIECT SERO – CYNLLUN HER NEWID HINSAWDD DRAFFT (L/PR) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 16 Mehefin 2021 i'r Cabinet fel y nodwyd yn yr agenda.

Gofynnodd yr Arweinydd i'r Cabinet nodi'r cyfeiriad ar yr adeg hon gan fod y sylwadau a wnaed yn y cyfeiriad hefyd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cabinet a restrwyd yn Eitem 12 ar agenda'r Cabinet.

PENDERFYNWYD – Nodi'r adborth gan Bwyllgorau Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a'r Amgylchedd ac Adfywio ac ystyried y mater ymhellach dan Eitem 12 agenda'r Cabinet.

Rheswm dros y penderfyniad

Ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad dan Eitem 12 agenda'r Cabinet.

**C616 PWYLLGOR YMGYNGHOROL BAE CAERDYDD –**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2021 fel y nodwyd yn yr agenda.

Tynnodd yr Arweinydd, wrth gyfeirio at y cofnodion, sylw at:

- Drafodaeth ddiddorol ynghylch digwyddiadau llygredd ac ymchwiliadau i lygredd;
- Y gwaith o atgyweirio ac ailagor y llifddor ar gyfer pysgod mudol.

Roedd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod a llongyfarchon nhw'r Cynghorydd Parker am gael ei ail-benodi'n Gadeirydd am flwyddyn arall.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 2 Mehefin, 2021.

Rhesym dros y penderfyniad

Nodi'r cofnodion.

**C617 CAU CYFRIFON 2020/21 (AG/PA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Dyweddodd yr adroddiad fod heb ennill na cholli ar ddiwedd y flwyddyn o ran refeniw ar ôl trosglwyddiadau net i gronfeydd wrth gefn o £12.206m, sy'n cynnwys £946k a dynnwyd i lawr o Gronfa'r Cyngor a £13.152m a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn penodol. £11.868 oedd gan Gronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2021.

Gosodwyd targed arbedion refeniw o £247k ar gyfer 2020/21 a chafodd y targed hwn ei fwrw yn ystod y flwyddyn.

Roedd y Cyfrif Refeniw Tai hefyd yn gallu cynyddu lefel ei gronfa wedi'i chlustnodi i £12.0m ar ôl cyflawni gwarged o £4.052m.

Cafwyd gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn o £78.360m a oedd yn ei gwneud yn angenrheidiol i dynnu £2.745m i lawr o'r cronfeydd wrth gefn.

Dyweddodd yr Arweinydd fod sefyllfa refeniw diwedd y flwyddyn yn adlewyrchu rhai trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn o ganlyniad i'r pandemig a rhywfaint o arian ychwanegol gan Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion, ac ati.

Roedd cynnydd y Cyfrif Refeniw Tai yn bennaf o ganlyniad i'r pandemig a Swyddogion nad oeddent yn gallu gwneud gwaith mewn tai tenantiaid o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19.

Roedd y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn arbennig o anodd o ganlyniad i'r pandemig, ac roedd Llywodraeth Cymru wedi cefnogi pob Awdurdod Lleol gydag arian ychwanegol fel y disgrifir yn yr adroddiad.

Dyweddodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio y byddai'r adroddiad hefyd yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 8 Gorffennaf, 2021 yn ogystal ag yng nghyfarfodydd Pwyllgorau eraill a byddai Aelodau'r Cabinet ar gael i drafod unrhyw faterion yn fanwl fel sydd angen ym mhob cyfarfod yn rhan o drafodaethau manwl parhaus cyn i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

**PENDERFYNWYD –**

(1) Cymeradwyo'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

(2) Cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cymeradwyo'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

(2) Galluogi'r Pwyllgor Craffu sy'n gyfrifol am gyllid i adolygu sefyllfa diwedd y flwyddyn.

**C618 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI, 2021 (AG/PA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Dywedodd yr adroddiad y byddai'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2021/22 yn parhau'n heriol i'r Cyngor yn weithredol ac yn ariannol oherwydd goblygiadau parhaus pandemig COVID-19. Roedd hyn yn effeithio ar y ddau oherwydd gwariant ychwanegol ond hefyd oherwydd incwm a gollwyd.

Cafwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y y câi arian i dalu am rai o'r materion hyd at 30 Medi, 2021.

Roedd targed effeithlonrwydd o £500k wedi'i bennu ar gyfer y flwyddyn ac roedd gwasanaethau wrthi'n gweithio i fwrw eu targedau. Roedd rhai materion o hyd mewn perthynas â thargedau arbedion nas bwriwyd o flynyddoedd blaenorol.

Roedd amrywiadau anffafriol yn cael eu rhagamcanu ar gyfer rhai gwasanaethau eleni a byddai angen defnyddio cronfeydd wrth gefn i ddatrys y materion hynny yn y byrdymor.

Dywedodd yr Arweinydd fod y broses o gyhoeddi'r £735 mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y cynllun Gweithwyr Gofal Cymdeithasol eisoes wedi dechrau.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

**PENDERFYNWYD –**

(1) Nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2021/22 yr Awdurdod.

(2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau angenrheidiol yn y Cyfarwyddiaethau Dysgu a Sgiliau ac Adnoddau.

(2) Cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i'w ystyried.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Rhoi gwybod i'r Cabinet am yr alldro referniw a amcanestynnir ar gyfer 2021/22.
- (2) Ail-alinio'r cyllidebau.
- (3) Rhoi gwybod i'r Aelodau am y sefyllfa ariannol.

**C619 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI, 2021 (AG/PA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mai, 2021. Dangosir manylion fesul cynllun yn Atodiad 1.

Nododd yr adroddiad y newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2021/22 a'r blynyddoedd i ddod.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio ei bod wedi bod yn cymeradwyo'r tendrau ar gyfer cynnal a chadw ysgolion dros wyliau'r haf yn ystod yr wythnos ddiwethaf, a'i bod yn falch o weld gwaith yn cael ei neilltuo i fusnesau lleol neu'r rheiny sy'n agos at Fro Morgannwg er mwyn hybu'r economi leol.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

**PENDERFYNWYD –**

- (1) Nodi'r cynnydd a wnaed ar Raglen Gyfalaf 2021/22.
- (2) Cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau.
- (3) Nodi'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig mewn perthynas â'r canlynol:
  - Gwaith Priffyrdd yn Weycock Cross – Cynyddu Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £73k i'w hariannu drwy arian adran 106.
  - Rhaglen Gwella Tai 2021/22 – Dyrannu cyllideb 2021/22 o £36.754m fel y nodir ym mharagraff 2.16.
  - Man Agored Gogledd Penarth – Cynyddu'r gyllideb hon i £102k yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i'w hariannu drwy arian adran 106.
  - Ardal Chwarae Clos Tyniad Glo/Clos Peiriant – Cynyddu Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £56k i'w hariannu drwy arian adran 106.

- Ardal Chwarae Windmill Lane – Cynyddu Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £63k i'w hariannu drwy arian adran 106.

(3) Nodi'r defnydd o Bwerau Brys mewn perthynas â'r canlynol:

- Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant - Cynyddu grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant – cynllun Cyfrwng Cymraeg yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £150k i'w ariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru.
- Gwaith Adeiladau Dros Dro Ysgol Y Deri - Cynnwys cynllun newydd yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 o'r enw 'Gwaith Adeiladau Dros Dro Ysgol Y Deri', gyda chyllideb o £181,180, i'w hariannu drwy dderbyniadau cyfalaf.
- Grant Cyfalaf Cynhaliaeth Ysgolion - Cynyddu Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £2.258m i'w hariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru, a hefyd cymeradwyo newid modd ariannu cynlluniau o fewn y rhaglen Addysg.
- Grant Cronfa Gofal Integredig Ysgol Y Deri - Cynyddu cyllideb y cynllun Addysg Wrth Gefn yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £59k gydag arian a gariwyd ymlaen o 2020/21.
- Gwaith Maes Chwarae Ysgol Gynradd Dinas Powys - Cynnwys cynllun newydd yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 o'r enw 'Gwaith Maes Chwarae Ysgol Gynradd Dinas Powys' gyda chyllideb o £15,821 i'w hariannu drwy gyfraniad refeniw gan yr Ysgol.
- Cynllun Band B Wrth Gefn - trosglwyddo £300k o gynllun Ysgol Uwchradd Whitmore ac £800k o gynllun Ysgol Uwchradd Pencoedtre fel y nodir isod yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22:-
  - Darpariaeth Gynradd Band B yng Ngorllewin y Fro £80k
  - Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant Band B £75k
  - Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg Band B £45k
  - Cynllun Band B Wrth Gefn £900k
- Grantiau Cyfalaf Dechrau'n Deg - Cynyddu Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £150k i'w hariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru.
- Grantiau Cyfalaf Cronfa Gofal Integredig y Gwasanaethau Cymdeithasol - Cynyddu cyllideb y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer Gwelliannau Dementia Tŷ Dyfan a Cartref yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £244k drwy arian mewnol a gariwyd ymlaen o 2020/21.
- Cyfleuster Adfer Adnoddau (Gorsaf Drosglwyddo Gwastraff) - Cynyddu'r cynllun hwn £857k yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i'w hariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru.
- Economi Gylchol - Siop Ailddefnyddio - Cynyddu'r cynllun hwn £30k yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22, i'w hariannu drwy gronfa wrth gefn y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth.
- Grantiau trafndiaeth - Cynnwys cynlluniau grant sy'n dod i £2.907m (y manylir arnynt ym mharagraff 2.19 isod) yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i'w hariannu drwy grantiau gan Lywodraeth Cymru.
- Adnewyddu Priffyrdd - Cynnwys cyllideb o £755k yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i'w hariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru.
- Grant Gwaith Graddfa Fach - Cynnwys cyllideb o £237,379.50 yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i'w hariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru a throsglwyddo £41,890.50 o'r gyllideb Rheoli Perygl Llifogydd i'r gyllideb hon.

- Cronfa Gofal Integredig - Pentref Pobl Hŷn Penarth - Cynyddu cyllideb Cronfa Gofal Integredig Pentref Pobl Hŷn Penarth yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £300k gan ddefnyddio arian mewnol a gariwyd ymlaen o 2020/21.
- Grant Partneriaeth Natur Lleol Cymru - Cynyddu'r gyllideb hon £50k i'w hariannu drwy grant.
- Grantiau Gwella Mynediad - Cynyddu Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £150k i'w hariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru.
- Cronfa Adeiladu Cymunedau Cryf - Cynyddu'r Gronfa Cymunedau Cryf yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £26.5k i'w hariannu drwy gyllideb refeniw Cymunedau Cryfach.
- Rhaglen Hwb - Cynyddu Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £1,015k i'w hariannu gan grant £712k gan Lywodraeth Cymru, cyfraniad refeniw o £100k gan ysgolion a chyfraniad £153k o gyllideb refeniw'r Polisi a throsglwyddiad £50k o'r cynllun dyrannu TGCh sydd eisoes wedi'i gynnwys yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.

(5) cymeradwyo'r newidiadau canlynol i Raglen Gyfalaf 2021/22 a'r blynyddoedd i ddod:-

- Cynlluniau Band B - Ailbroffilio'r cynlluniau Band B fel y'u nodir yn y tabl ym mharagraff 2.10, a chynyddu'r gyllideb gyffredinol £900k i'w hariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru.
- Adnewyddu Llyfrgell Penarth - Cynyddu'r gyllideb hon gan £22k yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i'w hariannu drwy gronfa wrth gefn y Llyfrgell.
- Dechrau'n Deg - Uwchraddio Boeler Skomer Road - Trosglwyddo'r gyllideb £ £40k i gynllun newydd o'r enw 'Dechrau'n Deg - Caeadau Diogelwch yn Skomer Road'.
- Pont Cross Common Road - Trosglwyddo £10k o'r cynllun Strwythurau Priffyrdd i'r cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.
- Rheoli Perygl Llifogydd Llan-faes - Cynyddu cyllideb y cynllun hwn £66k gydag arian cyfatebol a fydd yn cael ei ariannu o Gronfa'r Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth.
- Adeiladau Newydd y CRT - Dwyn £100k ymlaen o Raglen Gyfalaf 2022/23 i Raglen Gyfalaf 2021/22.
- Adnewyddu Asedau Gwasanaethau Cymdogaeth gan gynnwys toiledau, arwyddion a meinciau - Trosglwyddo £7k i'r gyllideb Seilwaith Arfordirol.
- Gwydr Lefel Uchel Penarth - Trosglwyddo £120k o gynllun gwaith y Ganolfan Hamdden i gyllideb cynllun Gwydr Lefel Uchel Penarth yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.
- Gwaith gwella seilwaith y llwybr troed ar Old Port Road, Gwenfô - Cynyddu'r gyllideb hon i £13.5k yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i'w hariannu drwy arian adran 106.
- Grant ENABLE - Cynnwys y cynllun hwn yn rhaglen Gyfalaf 2021/22 gyda chyllideb o £177,320 i'w hariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru.
- Grant Tlodi Bwyd CLILC - Cynyddu'r cynllun hwn £28,859 yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i'w hariannu drwy grant gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.



- Ad-daliad Goodshed i Lywodraeth Cymru - Cynyddu'r Rhaglen Gyfalaf £200k (£100k yn 2021/22 a £100k yn 2022/23) i'w hariannu drwy dderbyniadau cyfalaf.

#### Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Wedi ystyried y cynnydd o ran y Rhaglen Gyfalaf.
- (2) Rhoi gwybod i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau o'r cynnydd o ran y Rhaglen Gyfalaf.
- (3) Wedi ystyried defnyddio'r Awdurdod Dirprwyedig.
- (4) Wedi ystyried defnyddio Pwerau Brys.
- (5) Galluogi cynlluniau i fynd rhagddynt yn y blynyddoedd ariannol presennol a rhai'r dyfodol.

#### **C620 RHAGLENNI GWAITH CHWARTEROL Y CABINET – MIS EBRILL I FIS MEHEFIN 2021 A MIS GORFFENNAF I FIS MEDI 2021 (AG/PA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth y Cabinet ac unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r diweddariad ar gynnydd ar gyfer y chwarter o fis Ebrill i fis Mehefin 2021 a Blaenraglen Waith Chwarterol y Cabinet wedi'i diweddarau o fis Gorffennaf i fis Medi 2021.

Dywedodd yr Arweinydd fod y rhan fwyaf o'r adroddiadau wedi'u cwblhau ar gyfer y chwarter o fis Ebrill i fis Mehefin 2021, gyda dim ond un neu ddau wedi'u gohirio o ganlyniad i'r pandemig i gyfarfod Cabinet yn y dyfodol.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

#### **PENDERFYNWYD –**

- (1) Cytuno ar y diweddariadau i Raglen Waith Chwarterol y Cabinet ar gyfer y cyfnod mis Ebrill i fis Mehefin 2021 (Atodiad 1 yr adroddiad).
- (2) Cymeradwyo Rhaglen Waith Chwarterol y Cabinet - mis Gorffennaf i fis Medi 2021 sydd yn Atodiad 2 yr adroddiad.
- (3) Diweddarau Rhaglen Waith Strategol Flynyddol y Cabinet yn Atodiad 3 yr adroddiad yn unol ag Argymhellion (1) a (2) uchod a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Monitro cynnydd.
- (2) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer y cyfnod mis Gorffennaf i fis Medi 2021.
- (3) Cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000, is-ddeddfwriaeth a Chyfansoddiad y Cyngor wrth bennu rhaglenni gwaith blynyddol.

**C621 PROSIECT SERO – CYNLLUN HER NEWID HINSAWDD DRAFFT (AG/PA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Nododd yr adroddiad fod y Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd Drafft yn nodi ymateb y Cyngor i'r argyfwng hinsawdd a'r gwaith a wneir fel rhan o Brosiect Sero.

Manylodd y cynllun drafft ar ddeunaw her a'r camau y cynigiodd y Cyngor eu cymryd i ymateb i'r heriau hynny fel rhan o Brosiect Sero. Roedd yr heriau hynny'n seiliedig ar yr angen i ddangos arweinyddiaeth gref, cyflawni ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol a gwneud gwahaniaeth nawr.

Nododd y cynllun drafft hefyd rywfaint o'r gwaith sydd eisoes ar y gweill ar draws y Cyngor fel rhan o waith i addasu i effaith newid yn yr hinsawdd a'i lliniaru. Roedd y gwaith hwnnw hefyd yn rhan o Brosiect Sero.

Nododd yr adroddiad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y Cynllun drafft, yr adborth ohono a'r newidiadau i'r Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd.

Nododd yr adroddiad hefyd rywfaint o'r ymgysylltu parhaus fel rhan o Brosiect Sero a chanllawiau sero net diweddar Sector Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i gyfrifo allyriadau carbon.

Nododd yr adroddiad hefyd yr amserlen ar gyfer cymeradwyo'r cynllun gan y Cyngor.

Nodwyd yn briodol yr hyn a ystyriwyd o ran y Cynllun diwygiedig gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel y nodir yn Atodiadau C a D a chytunodd y Cabinet ar y penderfyniadau.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio ei bod wedi bod yn ddwy flynedd ers y Cynnig i'r Cyngor i ddatgan argyfwng hinsawdd ac roedd llawer iawn wedi digwydd ers hynny, yn enwedig pandemig. Roedd y Cynghorydd Burnett yn falch o'r berthynas waith partneriaeth gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Roedd disgyblion Ysgol Gynradd Ynys y Barri eisoes wedi holi Aelodau'r Cabinet ac wedi gwneud awgrymiadau i'w hystyried, ac roedd gan nifer o ysgolion eu cynlluniau a'u prosiectau eu hunain eisoes ar waith. Roedd ganddynt hefyd ddangosfwrdd y

gallent ei ddefnyddio i fonitro'r defnydd o garbon yn eu hysgolion eu hunain ac roedd lefelau ymgysylltu wedi bod yn gadarnhaol ar draws Bro Morgannwg.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

#### PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo'r Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd drafft diwygiedig (yn Atodiad A yr adroddiad).
- (2) Nodi'r adborth (Atodiad B yr adroddiad) a gafwyd drwy'r ymgynghoriad diweddar a gynhaliwyd o 24 Mawrth tan 12 Mai 2021.
- (3) Nodi sylwadau ac argymhellion Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio (Atodiad C yr adroddiad) a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau (Atodiad D yr adroddiad) a ystyriodd y Cynllun drafft diwygiedig ym mis Mehefin 2021.
- (4) Nodi'r ymgysylltu parhaus a gynhelir yn rhan o'r gwaith sy'n ymwneud â Phrosiect Sero.
- (4) Nodi canllaw newydd Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer adrodd ar garbon sero-net a gyhoeddwyd ar 24 Mai 2021 fel y disgrifir yn ddiweddarach yn yr adroddiad.
- (6) Cymeradwyo, yn amodol ar Benderfyniadau (1) i (5), y Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd a'r adroddiad a gyfeiriwyd at y Cyngor yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf, 2021 i'w gymeradwyo.

#### Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Galluogi'r Cabinet i ystyried y Cynllun drafft yn dilyn y broses ymgynghori.
- (2) Wedi ystyried yr adborth (Atodiad B) a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun drafft.
- (3) Wedi ystyried sylwadau ac argymhellion Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio (Atodiad C) a Phwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau (Atodiad D) a ystyriodd y Cynllun diwygiedig ym mis Mehefin.
- (4) Wedi ystyried yr ymgysylltu parhaus a gynhelir fel rhan o Brosiect Sero.
- (5) Wedi ystyried cyhoeddi canllaw adrodd ar sero net newydd Sector Cyhoeddus Cymru.
- (6) Galluogi'r Cabinet i gymeradwyo Cynllun Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor ac iddo gael ei ystyried gan y Cyngor i'w gymeradwyo.

**C622 DIWEDDARIAD AR Y CORONAFEIRWS (AG/PA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Rhoddodd yr adroddiad i'r Cabinet drosolwg lefel uchel o'r sefyllfa sydd ohoni o ran y coronafeirws a threfniadau presennol y Cyngor i ymateb i'r pandemig ac adfer ohono.

Rhoddodd yr adroddiad hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ddiweddaraf i wasanaethau'r Cyngor a'r trefniadau rhanbarthol ar gyfer rheoli ymateb y sector cyhoeddus i'r pandemig, ac agweddau penodol ar hyn, gan gynnwys brechiadau torfol a'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu.

Roedd Strategaeth Adfer y Cyngor a fabwysiadwyd ddiwedd 2020 wedi cynnig fframwaith ar gyfer datblygu adferiad strategol y sefydliad a chafodd diweddariad ar hyn ei gynnwys er gwybodaeth i'r Aelodau ac er mwyn iddynt ei ystyried, ochr yn ochr â chanlyniadau'r arolwg lles staff diweddar.

Argymhellwyd bod y Cabinet yn cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau mewn perthynas â dull y Cyngor o reoli effaith y pandemig ac at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n wybodaeth gyd-destunol bellach wrth ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol. O ystyried pwysigrwydd yr adroddiad, argymhellwyd hefyd y dylid rhannu'r adroddiad â'r holl Aelodau Etholedig a phartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Cyngor er gwybodaeth iddynt.

Dywedodd yr Arweinydd fod y sefyllfa genedlaethol wedi newid ers 23 Mehefin a thynnodd sylw at y sefyllfa ddiweddaraf o 5 Gorffennaf fel isod:

- Ar 5 Gorffennaf, 2021, dangosodd y data diweddaraf ar y coronafeirws a oedd ar gael ar gyfer y saith diwrnod treigl fod 123 o achosion newydd wedi'u diagnosisio ym Mro Morgannwg, gyda chyfradd achos o 53.3 fesul 100,000 o'r boblogaeth;
- Ar 5 Gorffennaf, 2021, cyfran gadarnhaol y profion a gynhaliwyd oedd 5.4%;
- Ar 5 Gorffennaf, 2021, y ffigurau cyfatebol ar gyfer Cymru oedd 3,015 o achosion gyda chyfradd achos o 41.2 y 100,000 o'r boblogaeth a chyfran gadarnhaol y profion a gynhaliwyd oedd tua 5%;
- Roedd hyn yn gynydd sylweddol yn ystod yr wythnosau diwethaf wrth i fesurau'r coronafeirws gael eu lleddfu;
- Amrywiolyn Delta oedd y mwyaf cyffredin yng Nghymru erbyn hyn;
- Nid oedd llawer o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty ac nid oedd yn ymddangos bod angen lefelau blaenorol o driniaeth ysbyty ar y rheiny yr effeithiwyd arnynt, ond roedd ysbytai'n teimlo straen lefelau a oedd fel arfer yn gysylltiedig â'r gaeaf o ran diagnosis a thriniaeth na fu'n bosibl yn ystod anterth y pandemig;
- Anogodd yr Arweinydd unrhyw un nad oedd wedi cael brechiad i wneud hynny er mwyn amddiffyn eu hunain a'r rheiny o'i gwmpas;
- Roedd yr ymchwydd presennol yn y rheiny yr effeithiwyd arnynt o fewn y grwpiau oedran 10-29, sy'n awgrymu nad oedd nifer yr achosion mor ddifrifol

ymhlith y boblogaeth hŷn, ond yr oedd y genhedlaeth iau yn gallu ei throsglwyddo o hyd.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

**PENDERFYNWYD –**

- (1) Nodi cynnwys yr adroddiad ac Atodiad A.
- (2) Cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i'w ystyried.
- (3) Cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried ochr yn ochr â Chofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor.
- (4) Anfon yr adroddiad at yr holl Aelodau etholedig, Cyngorau Tref a Chymuned ac aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth iddynt.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Wedi ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo mewn ymateb i bandemig y coronafeirws a'r adferiad ohono, gan gynnwys canlyniadau'r arolwg lles staff diweddaraf.
- (2) Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ystyried ymateb y Cyngor i bandemig y coronafeirws a'i adferiad ohono.
- (3) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er cyd-destun wrth ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- (4) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid y Cyngor.

**C623 DEFNYDDIO PWERAU BRYD Y RHEOLWR GYFARWYDDWR (AG/PA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Cabinet am y ffordd y mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr wedi arfer Pwerau Brys ers yr adroddiad diwethaf ar 12 Ebrill, 2021.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

**PENDERFYNWYD –** Nodi'r defnydd o Bwerau Brys y Rheolwr Gyfarwyddwr fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C624            DIWEDDARIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL (AG/PA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyfleodd yr adroddiad y cynnydd a wnaed drwy gydol 2020/21 yn erbyn pum amcan a thargedau ychwanegol a gynhwysir yng Nghynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2019-2022 (mae mwy o fanylion yn y tabl yn Atodiad A).

Rhoddodd yr adroddiad hefyd drosolwg i'r Cabinet o'r gwaith a wnaed mewn perthynas ag asedau eiddo yn dilyn pandemig y coronafeirws.

Roedd pandemig COVID-19 wedi golygu bod yn rhaid gohirio rhai camau gweithredu, ond roedd eraill wedi'u cyflymu i adlewyrchu brys rhai penderfyniadau'n ymwneud ag asedau. Roedd ffrydiau gwaith a phrosiectau newydd wedi'u sefydlu i ymateb i'r gofynion penodol sy'n gysylltiedig â'r pandemig wrth iddynt godi.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod y Tîm Eiddo wedi bod ar gael drwy gydol y pandemig ac wedi dweud diolch i'r holl staff am eu holl waith dros y pymtheg mis diwethaf yn gweithio o fewn amgylchiadau anodd. Cynigiodd yr Arweinydd argymhelliad ychwanegol i adlewyrchu diolch gan y Cabinet i'r holl staff a oedd wedi cyflawni swyddogaethau o'r fath, sicrhau bod y Cynllun Rheoli Asedau yn parhau i weithredu er gwaethaf y pandemig a chynnal arolygon staff.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gydag ychwanegiad Argymhelliad (4), gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

**PENDERFYNWYD –**

(1) Nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau a osodwyd gan Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2019-22 fel y disgrifir yn yr adroddiad ac Atodiad A.

(2) Nodi'r gwaith a wnaed mewn ymateb i Bandemig COVID-19, yn benodol mewn perthynas â sut y defnyddiwyd asedau eiddo'r Cyngor mewn ymateb i'r un peth.

(3) Cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau er mwyn iddo ystyried cynnydd yn erbyn y targedau a nodir yn y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.

(4) Diolch i Swyddogion sy'n gweithio i sicrhau parhad y Cynllun Rheoli Asedau am swm y gwaith wedi'i wneud yn ystod y pandemig.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1a2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (3) Galluogi'r Pwyllgor i ystyried y cynnydd yn erbyn y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a rhoi unrhyw sylwadau i'r Cabinet.
- (4) Dangos gwerthfawrogiad o'r gwaith i sicrhau parhad y Cynllun Rheoli Asedau.

**C625 YMATEB I'R YMGYNGHORIAD: CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB HILIO LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER CYMRU WRTH-HILIO (AG/PA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Crynhodd yr adroddiad agweddau allweddol ar Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (CGCH) drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Wrth-Hiliol a thynnodd sylw y Cabinet hefyd at ymateb drafft i'r ymgynghoriad ar y Cynllun (Atodiad A).

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori yn amlinellu cynigion drafft ar gyfer Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol gyda llawer o gamau gweithredu sy'n berthnasol i Awdurdodau Lleol. Cafodd hyn ei lywio gan ymchwil, y dystiolaeth ddiweddaraf, ymgysylltu ag arweinwyr cymunedol a rhanddeiliaid, a'i siapia gan brofiad bywyd pobl.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi cynhyrchu dogfen (Atodiad B yr adroddiad) sy'n tynnu sylw at ble y byddai gwaith i Awdurdodau Lleol.

Er mwyn llywio ymateb drafft y Cyngor i'r ymgynghoriad, ceisiwyd sylwadau gan swyddogion ar draws Gwasanaethau'r Cyngor, y Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig a'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb. Roedd y rhain wedi'u hymgorffori yn yr ymateb drafft (Atodiad A yr adroddiad).

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 15 Gorffennaf 2021.

Dywedodd y Cynghorydd Gray fod yr adroddiad yn cynnwys negeseuon pwysig. Roedd wedi mynychu digwyddiad lansio ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ac roedd amrywiaeth eang o sefydliadau a lleiafrifoedd ethnig yn bresennol o bob rhan o Gymru. Cytunon nhw i gyd mai dyna oedd y neges a'r cyfeiriad cywir a mater i bawb dan sylw oedd ymrwymo i wneud y wlad yn wrth-hiliol. Roedd yn bwysig ymgysylltu a thrafod y materion a theimlon nhw fod yr ymateb yn gynhwysfawr.

Roedd y Cynghorydd Burnett yn edrych ymlaen at weld y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn gallu ystyried yr adroddiad yn briodol. Roedd wedi mynd â'r ymateb i'r ymgynghoriad addysg i gyfarfod Aelodau'r Cabinet Addysg yn y Consortiwm, anogodd y cyfraniadau drafodaeth ac roedd yn gobeithio y byddai'r un peth yn wir yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu.

Dywedodd yr Arweinydd, yn yr un modd â Phrosiect Sero, y byddai hwn yn fater parhaus i'w drafod.

Dywedodd y Cyngorydd Williams ei fod wedi mynychu'r Grŵp Lleiafrifoedd Ethnig ym Mro Morgannwg lle y bu amrywiaeth eang o fynychwyr a oedd yn gadarnhaol ac yn adeiladol ynglŷn â'r angen am newid a bod ganddo ddiddordeb mewn clywed safbwyntiau pobl eraill oedd yn cael eu cyflwyno.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

#### **BENDERFYNU –**

- (1) Nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau.
- (2) Cymeradwyo'r ymateb drafft i'r ymgynghoriad fel y'i disgrifir yn Atodiad A yr adroddiad.
- (3) Cymeradwyo'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys a nodir yn Adran 14:14 o Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn bodloni'r dyddiad cau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru sef 15 Gorffennaf, 2021.
- (4) Anfon ymlaen unrhyw sylwadau a gafwyd gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a'r Hyrwyddwr Cydraddoldeb i Lywodraeth Cymru i ategu'r ymateb a gyflwynwyd gan y Cyngor.

#### **Rhesymau dros y penderfyniadau**

- (1) Cael y cyfle i ystyried ymateb drafft y Cyngor i'r ymgynghoriad ar Gynllun Drafft Llywodraeth Cymru.
- (2) Cael cymeradwyaeth ar gyfer ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad.
- (3) Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.
- (4) Galluogi cyflwyno unrhyw farn gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Cyngor i Lywodraeth Cymru gan ystyried amserlennu cyfarfod y Pwyllgor Craffu.

#### **C626 EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD –**

PENDERFYNWYD – dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol ar y sail ei bod yn golygu tebygoliaeth y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) y Ddeddf. Cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen yn y cromfachau ar ôl pennawd y cofnod.



**C627 COFNODION (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 13 A 14) –**

Cyfeiriodd cofnodion Rhan II cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2021 at Eitem 17 yr agenda honno yn ymwneud ag adroddiad 'Tirlithriad Penarth Heights 2016'.

Nid oedd y penderfyniad i'w gyhoeddi drwy rinwedd paragraff(au) 13 a 14 rhan 4 o Atodlen 12a o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 oherwydd sensitifrwydd masnachol y materion dan sylw.

Roedd y manylion ar gael i Aelodau Cyngor Bro Morgannwg a Swyddogion perthnasol Cyngor Bro Morgannwg.

**PENDERFYNWYD** – cymeradwyo cofnodion Rhan II y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2021 yn gofnod cywir.